Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Prif Swyddog Tân/ Prif Swyddog Gweithredol

Pecyn Ymgeiswyr, Medi 2025











LHH



# Cynnwys


Croeso gan Y Cyng. John Davies 04

Hysbyseb 05

Gwybodaeth am y Gwasanaeth 06

Gwybodaeth am yr Awdurdod Tân 08

Proffil y Swydd 09


Disgrifiad o'r Swydd 10

Manyleb y Person 11

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gwaith 13

Amodau a Thâl 14

Sut i ymgeisio 15


PARTNER AGENCY PORTAL
SEARCH
MENU
PROTECTING OUR COMMUNITIES
Welcome to Mid and West Wales Fire and Rescue Service
STATS FOR APRIL 2025
iiyama

# Croeso gan Y Cyng. John Davies, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Ar ran Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, pleser yw cyflwyno'r pecyn cais am swydd hwn ar gyfer swydd Prif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol.

Fel Cadeirydd yr Awdurdod Tân, gallaf dystio i bwysigrwydd arweinyddiaeth gref yn ein cenhadaeth i amddiffyn bywyd, eiddo a'r amgylchedd rhag tân ac argyfyngau eraill. Mae'r rôl hon yn ganolog wrth lywio ein Gwasanaeth tuag at ragoriaeth barhaus wrth gyflawni ein gweledigaeth "i ddarparu'r Gwasanaeth Tân ac Achub gorau posibl ar gyfer cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru". Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio dyfodol ein Gwasanaeth, gan ysgogi arloesedd, a sicrhau ein heffeithiolrwydd gweithredol wrth gynnal y safonau uchaf o ddiogelwch a gwasanaeth cyhoeddus.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu enw da nodedig am ddewrder, ymrwymiad ac ymgysylltiad cymunedol. Mae ein staff ymroddedig wastad yn dangos proffesiynoldeb eithriadol, gan ymateb yn effeithiol i argyfyngau ac ymgysylltu â'n cymunedau i hyrwyddo diogelwch a lles. Mae eu gwaith caled a'u gwydnwch yn ystod eu gwaith arferol a digwyddiadau eithriadol nid yn unig wedi achub bywydau ond hefyd wedi meithrin cysylltiadau parhaol o ymddiriedaeth gyda'r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Fodd bynnag, wrth i ni ddathlu ein llwyddiannau, rydym hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n esblygu sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub heddiw. Mae'r angen i foderneiddio ein Gwasanaeth yn barhaus fel rhan o'n taith newid diwylliannol, amlder a difrifoldeb cynyddol digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, a'r gallu i ymateb i anghenion cymunedol amrywiol yn gofyn am arweinyddiaeth arloesol a rhagwelediad strategol.

Bydd ein gallu i gynnal safonau uchel o ran darparu gwasanaethau wrth lywio pwysau ariannol ac ystyriaethau gweithluoedd yn hanfodol wrth i ni symud ymlaen.

Rydym yn chwilio am arweinydd blaengar sy'n cydnabod pwysigrwydd cydweithio, cynhwysiant ac ymgysylltu cymunedol wrth lywio ein Gwasanaeth drwy'r cyfnod heriol hwn. Bydd gan yr ymgeisydd cywir weledigaeth glir ar gyfer dyfodol tân ac achub, gan ddangos ymrwymiad nid yn unig i gynnal ein hetifeddiaeth o ragoriaeth ond hefyd i'n gwthio i oes newydd o ddarparu gwasanaethau.

Wrth i chi ystyried y cyfle hwn, rwy'n eich annog i fyfyrio ar eich dull o arweinyddiaeth, arloesedd a gwasanaeth cymunedol.

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth a'n hymddygiadau ac yn eu hyrwyddo, gan ddangos profiad o arweinyddiaeth strategol gref ac angerdd dros wasanaeth cyhoeddus.

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i fod yn esiampl o ddiogelwch, gwydnwch a chefnogaeth i'n cymunedau.

Diolch
**Y Cyng. John Davies**
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru



# Hysbyseb

## Prif Swyddog Tân: £166,096 - £178,309
## Prif Swyddog Gweithredol: £149,486 - £160,478
## Lleoliad - Caerfyrddin

### Ai hon yw'r swydd i chi?

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cychwyn ar drawsnewidiad diwylliannol uchelgeisiol ac rydym yn chwilio am Brif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol llawn gweledigaeth i arwain y daith honno.

Mae hwn yn gyfle prin i lunio dyfodol un o wasanaethau brys mwyaf uchel eu parch y DU, gan ei arwain trwy adeg hollbwysig gyda dewrder, tosturi a phwrpas.

Rydym eisiau i'n Prif Swyddog Tân/Prif Weithredwr nesaf fod â hanes profedig o arweinyddiaeth gref a chynhwysol gyda'r gallu i adeiladu ar ein llwyddiannau presennol. Bydd ganddo/ganddi sgiliau cyfathrebu rhagorol, a'r gallu i feithrin a rheoli perthnasoedd cryf ar draws grŵp eang o randdeiliaid a bod yn eiriolwr dros y Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan bwysig wrth wella diwylliant, gweledigaeth ac ymddygiadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub trwy ymgysylltu â'n pobl a'u hysbrydoli, fel eu bod yn parhau i ddarparu rhagoriaeth yn y gwasanaeth ledled canolbarth a gorllewin Cymru. Bydd angen iddo/iddi hefyd ddangos gallu i weithredu a dylanwadu ar lefel strategol mewn amgylchedd gwleidyddol ac undebol wrth feithrin dulliau cydweithredol o weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd yn dangos y safonau uchaf o broffesiynoldeb ac yn wirioneddol ymrwymedig i ddiwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae gan y Gwasanaeth un o'r ardaloedd daearyddol mwyaf yn y DU, sy'n ymestyn o Bort Talbot i Dyddewi ac i fyny y tu hwnt i'r Trallwng. Mae wedi meithrin enw da am ragoriaeth wrth ddarparu ein gwasanaethau o ymateb i ddigwyddiadau brys i amrywiaeth drawiadol o fentrau ataliol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i wneud ein cymunedau'r lleoedd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â nhw, trwy ganolbwyntio ar ddiogelu cymunedau, denu a datblygu ein pobl, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, a chyflawni gwelliant sefydliadol.

Rydym yn chwilio am Brif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol blaengar i arwain Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru trwy gyfnod o newid diwylliannol cyffrous. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y swydd uchel ei phroffil hon feddu ar ymwybyddiaeth gref o'r heriau cymhleth sy'n wynebu Gwasanaethau Tân ac Achub modern ledled Cymru a thirwedd ehangach y DU. Gyda greddf strategol gref a sgiliau cyfathrebu rhagorol, byddwch yn meithrin perthnasoedd hanfodol â'r Awdurdod Tân, Llywodraeth Cymru, gwasanaethau sy'n bartneriaid i ni a rhanddeiliaid ar hyd a lled y sector.

Er bod profiad o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub yn fanteisiol, nid yw'n hanfodol. Rydym yn croesawu ceisiadau gan arweinwyr llawn gweledigaeth sy'n bodloni gofynion y rôl. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud cais am rôl y Prif Swyddog Tân fod yn gwasanaethu ar lefel Rheolwr Brigâd ar hyn o bryd, gyda phrofiad cadarn o arweinyddiaeth weithredol a'r gallu i gyflenwi'n weithredol.

Dyma'ch cyfle i yrru arloesedd, llunio gwaddol pwerus, a gwneud gwahaniaeth ystyrlon i gymunedau ledled canolbarth a gorllewin Cymru gan ein gwthio hefyd i oes newydd o ddarparu gwasanaethau.

I gael gwybod mwy a sut i wneud cais, ewch i **Penna | Jobs** neu am drafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon, cysylltwch â chydweithiwr ein partner, Fizza Islam, ar **Fizza.Islam@LHH.com** neu **0141 220 6460**.

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **hanner nos ddydd Sul 26 Hydref 2025.**



# Gwybodaeth am y Gwasanaeth

## Rydym yn gweithio'n galed i wasanaethu dros 900,000 o bobl sy'n byw yn ardaloedd Powys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Dinas a Sir Abertawe.



Crëwyd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morganwg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ffurfio bron i ddwy ran o dair o Gymru. Mae'n cwmpasu ardal wledig yn bennaf o 4,500 milltir sgwâr (11,700 $km^2$) ac mae'n cynnwys 58 o orsafoedd, wedi'u rhannu ar draws tair Adran (Gogleddol, Gorllewinol a Deheuol). Y Gwasanaeth yw'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, y tu ôl i Wasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae gan y Gwasanaeth y drydedd boblogaeth wasgarog uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae 900,000 o bobl yn byw yn yr ardal rydym yn ei gwasanaethu. Mae'r nifer hwn yn chwyddo i dros 1.5 miliwn o ganlyniad i dwristiaeth drwy fisoedd yr haf.

Mae amrywiaeth o risgiau i'w cael o fewn ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd â phoblogaeth uchel fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yna hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ledled yr ardal. Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn ffurfio rhai o'r risgiau arbenigol a geir o fewn y Gwasanaeth.

Rydym yn falch bod ein 1,350 o gydweithwyr yn gwasanaethu dros 430,000 o gartrefi a 43,000 o safleoedd busnes. Rydym yn gweithio'n galed i wasanaethu dros 900,000 o bobl sy'n byw yn ardaloedd Powys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Dinas a Sir Abertawe.

### Ein Gweledigaeth
**Rydym yn ymdrechu i:**

- ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru

**Ein Galluogwyr yw:**

- Ein Pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Strategaeth Technolegau Digidol a Chyfathrebu Gwybodaeth
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Llywodraethu, gwneud adrannau a gwelliant parhaus
- Gwydnwch Ariannol
- Partneriaeth a Chydweithio

### Ein Hymddygiad
**Rydym yn:**

- Atebol
  Arddangos gonestrwydd
- Parchus
- Di-duedd
- Moesegol

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n **gwefan**





# Gwybodaeth am yr Awdurdod Tân

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r chwech Awdurdod Lleol yn ardal canolbarth a gorllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys a Dinas a Sir Abertawe).

Maent yn atebol i'r cyhoedd ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer ein cymunedau, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau canlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
- Gorchymyn Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995.
- Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Rhag Tân) 2005.
- Gorchymyn Cynlluniau Gwasanaethau Tân ac Achub Cyfun (amrywiad) Cymru 2009.
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 diwygiwyd 2011.
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu delio'n effeithiol â galwadau am gymorth mewn achos tân ac argyfyngau eraill.



# Proffil y Swydd

## Bydd gennych rôl arweinyddiaeth hanfodol mewn rhaglenni newid strategol yn y Gwasanaeth a byddwch yn Bennaeth dynodedig y Gwasanaeth Cyflogedig ar gyfer yr Awdurdod Tân.



Fel Prif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol, byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyflawni ei rwymedigaethau a'i ddyletswyddau statudol yn llawn (o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ac Offerynnau, Canllawiau a Rheoliadau Statudol eraill), a'r holl statudau a rheoliadau cyfredol sy'n ymwneud â diogelwch rhag tân ac atal tân, gan ystyried Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru ac anghenion y cymunedau a'r bobl ledled canolbarth a gorllewin Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn canolbwyntio ar berfformiad, gyrru effeithlonrwydd a thrawsnewid y gweithrediadau darparu gwasanaeth i ddarparu'r gwerth gorau am arian i drigolion. Bydd chwilio am welliannau ym mhrofiad cwsmeriaid trwy integreiddio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac ar draws ystod o ddisgyblaethau proffesiynol hefyd yn bwysig. Bydd gennych rôl arweinyddiaeth hanfodol mewn rhaglenni newid strategol yn y Gwasanaeth a byddwch yn Bennaeth dynodedig y Gwasanaeth Cyflogedig ar gyfer yr Awdurdod Tân.

Fel aelod o Dîm Arweinyddiaeth Gweithrediaeth y Gwasanaeth, byddwch yn berchen ar ac yn cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cyfeiriad strategol y Gwasanaeth trwy gyflawni ei amcanion Gwella a Llesiant a amlinellir yn ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040.

**Amodau arbennig:**

- Disgwylir i ddeiliad y swydd fyw o fewn canolbarth a gorllewin Cymru.
- Bydd y swydd yn cynnwys gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol.
- Bydd angen cliriad DBS Safonol ar yr ymgeisydd.
- Mae cliriad diogelwch yn ofynnol ar gyfer y rôl hon.

**I ymgeiswyr sy'n gwneud cais ar gyfer rôl y Prif Swyddog Tân:**

- Disgwylir i chi ymgymryd â gofynion Dyletswydd Barhaus.
- Gofynnir i chi gyflenwi ar gyfer y Prif Swyddog ar gyfer y Gwasanaeth a gweithredu fel Comander Aur lle bo'n briodol.

# Disgrifiad o'r Swydd



## Trosolwg o'r Rôl

Y Prif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol yw Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a phrif Ymgynghorydd yr Awdurdod Tân. Mae gan y swydd linell adrodd uniongyrchol i'r Awdurdod Tân. Mae'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r Prif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol gan yr Awdurdod Tân wedi'u cofnodi'n ffurfiol yn Rhan 2 o ddogfen Cyfansoddiad yr Awdurdod.

Mae'r Prif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol am ddehongli'r rhwymedigaethau statudol a osodir ar yr Awdurdod Tân a datblygu polisïau strategol i sicrhau bod y rhwymedigaethau hynny'n cael eu cyflawni'n gyfreithiol mewn modd cost-effeithiol ac yn unol â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod Tân.

Mae'r Prif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol yn atebol i'r Awdurdod Tân am reoli'r Gwasanaeth Tân yn effeithiol yn unol â Gweledigaeth, Ymddygiadau ac Amcanion y Gwasanaeth y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040.

Y Prif Swyddog Tân yw'r Uwch Swyddog Gweithredol a Chomander y Gwasanaeth.

## Prif Gyfrifoldebau:

- Gorchymyn gweithredol a gweithrediadol y gwasanaethau lleihau risg ac achub cymunedol i'r chwech Awdurdod Lleol cyfansoddol yn yr ardal a wasanaethir gan yr Awdurdod Tân.
- Gorchymyn a chydlynu gweithrediad y Gwasanaeth i sicrhau bod rhwymedigaethau statudol yr Awdurdod Tân yn cael eu cyflawni.
- Cynllunio, cyfarwyddo a rheoli adnoddau'r Awdurdod i gyrraedd lefelau cyflawniad cynlluniedig, a bodloni prosesau archwilio Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Awdurdodau statudol eraill.
- Sicrhau bod Aelodau etholedig yr Awdurdod Tân yn cael eu hysbysu mewn modd dibynadwy a phrydlon, am faterion strategol sy'n effeithio ar y gwasanaeth sydd angen ystyriaeth gan yr Awdurdod, gyda sylw penodol i newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi a chyfarwyddebau'r llywodraeth. Darparu cyngor a chefnogaeth i Aelodau i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n briodol.
- Sicrhau bod Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion perthnasol eraill y chwech awdurdod lleol cyfansoddol yn cael eu briffio a'u hymgynghori â nhw ar faterion o ddiddordeb i'r ddwy ochr.
- Mewn cydweithrediad â Thrysorydd yr Awdurdod a Chyfarwyddwyr Cyllid y chwech awdurdod lleol cyfansoddol, cael cymeradwyaeth ar gyfer cyllidebau refeniw sy'n darparu'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth tân ac achub effeithlon ac effeithiol ar gyfer yr ardal.
- Datblygu cynlluniau buddsoddi cyfalaf strategol ac, mewn cysylltiad â Thrysorydd yr Awdurdod, paratoi rhaglen fuddsoddi cyfalaf flynyddol i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân o fewn y fframwaith benthyca darbodus.
- Cynrychioli'r Awdurdod mewn trafodaethau a chyfarfodydd â Llywodraeth Cymru.
- Trefnu a rheoli gweithrediad ariannol cost-effeithiol y Gwasanaeth o fewn dyraniadau cyllideb cymeradwy gan gynnwys cynhyrchu incwm lle bo'n briodol.
- Sicrhau bod adnoddau gweithredol y Gwasanaeth yn cael eu cynnal a'u bod ar gael i ymateb, o fewn safonau rhagnodedig, i unrhyw argyfwng a allai ddigwydd o fewn ardal y Gwasanaeth.
- Sicrhau bod swyddogaeth lleihau risg gymunedol Gwasanaeth yr Awdurdod Tân yn rhedeg yn effeithiol ac yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod yn ddiduedd o ran gorfodi deddfwriaeth, cyngor ac addysg diogelwch tân.
- Sicrhau datblygiad a gweithrediad strategaethau Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys Systemau Gwaith Diogel ar gyfer digwyddiadau gweithredol. Cyfrifol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 am dorri Adran 37 (1) y Drosedd gan Gyrff Corfforaethol.
- Darparu cefnogaeth rheoli llinell uniongyrchol i'r Gyfarwyddiaeth briodol fel rhan o feysydd cyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol.
- Cyfrifol am recriwtio'r holl staff i gwrdd ag anghenion demograffig y Gwasanaeth, gan gynnwys darparu cyngor i'r Awdurdod ar benodi Cyfarwyddwyr Gwasanaeth yn unol â pholisi'r Awdurdod ar gyfle cyfartal.
- Cyfrifol am sicrhau trefniadau cyffredinol ar gyfer datblygu a hyfforddi staff i fodloni anghenion deinamig y Gwasanaeth.
- Cyfrifol am yr holl weithdrefnau disgyblu mewn perthynas â gweithwyr o fewn telerau gweithdrefnau disgyblu cymeradwy'r Awdurdod.
- Cyfrifol am ddatblygu a meithrin cysylltiadau diwydiannol o ansawdd uchel gyda'r undebau llafur priodol, sy'n cynrychioli gweithlu'r Gwasanaeth.
- Fel un o swyddi uwch y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru, chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu polisi tân cenedlaethol trwy gynrychioli'r Awdurdod Tân a, lle bo'n briodol, Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ar Bwyllgorau a grwpiau tasg perthnasol y DU a Chymru.
- Bydd y Prif Swyddog Tân hefyd yn gweithio ar system ddyletswydd barhaus.

# Manyleb y Person



## Ymrwymiad i ddatblygu'r ethos o ansawdd ar draws pob maes darparu gwasanaeth yn unol â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

**Byddwch yn meddu ar – Gwybodaeth a Phrofiad**

- Gwybodaeth drylwyr am y fframwaith gwleidyddol ac ariannol y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithredu ynddo
- Hanes llwyddiannus o reoli timau/swyddogaethau amlddisgyblaethol i gyflawni amcanion cyffredin
- Profiad o hyrwyddo'r sefydliad ar lefel uwch gyda chyrff allanol, y wasg a'r cyfryngau
- Dealltwriaeth o'r cysyniad o Wella Perfformiad a'i oblygiadau i'r Gwasanaeth Tân
- Profiad o ddelio ag aelodau etholedig, cyrff cynrychioliadol a gwleidyddion ar lefel Uwch Reolwr
- Gwerthfawrogiad o'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub lleol a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru
- Profiad o ymwneud yn sylweddol ag adolygu polisïau a chyllidebau
- Mae profiad o reoli systemau rheoli perfformiad yn ddymunol
- Gweithio'n agos gydag Aelodau Etholedig
- Ymwneud yn weithredol â datblygu polisïau NFCC*

*Mae hyn yn ofynnol ar gyfer rôl y Prif Swyddog Tân

**Byddwch yn meddu ar - Sgiliau a Gallu**

- Sgiliau negodi datblygedig i ddarparu ffocws clir ar gyfer gweithredu
- Gwerthfawrogiad o hunaniaeth ddiwylliannol, ieithyddol a gwleidyddol Cymru
- Gallu dangos gweledigaeth gorfforaethol a dealltwriaeth o faterion a pholisïau ledled y sefydliad
- Tystiolaeth o ymrwymiad clir i gydraddoldeb ac amrywiaeth sefydliadol
- Sgiliau a gallu cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig eithriadol o dda
- Hyblygrwydd a gallu i addasu i fodloni blaenoriaethau a phwysau sy'n gwrthdaro
- Sgiliau rhyngbersonol datblygedig, sy'n gyson ag amgylchedd gwaith modern
- Dull gwrthrychol a rhesymegol o wneud penderfyniadau/datrys problemau
- Ymrwymiad i ddatblygu'r ethos o ansawdd ar draws pob maes darparu gwasanaethau yn unol â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella
- Parodrwydd i gynnwys pob grŵp perthnasol mewn datblygu polisïau a gwasanaethau
- Y gallu i gyflwyno ar lafar i grwpiau Pwyllgor mawr a pharatoi cyflwyniadau o'r fath i derfynau amser tynn
- Ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg i lefel sylfaenol, yn unol â deddfwriaeth y Gymraeg ac yn unol â **Safonau'r Gymraeg** yr Awdurdod. Cynigir unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i gyrraedd y lefel ofynnol o hyfedredd yn yr iaith i'r ymgeisydd llwyddiannus.

**Mae'n bwysig eich bod:**

- Yn cynnal cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, felly rydym yn cefnogi cymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith
- Yn gallu mynychu digwyddiadau, achlysuron ac ati, a all fod y tu allan i oriau swyddfa arferol

**Wedi dangos ymrwymiad i'ch datblygiad proffesiynol parhaus, er enghraifft:**

- Cymhwyster lefel Gradd Meistr mewn pwnc sy'n gysylltiedig â busnes neu gyfwerth
- Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol neu gyfwerth yn ddymunol
- Rôl Rheolwr Brigâd cymwys cyfredol neu uwch mewn Gwasanaeth Tân ac Achub Awdurdod Lleol*
- Cymhwyster Rheoli Digwyddiadau Lefel 4 (Strategol)*
- Gofyniad i weithio ar system ddyletswydd barhaus*

*Mae'r rhain yn ofynnol ar gyfer rôl y Prif Swyddog Tân


Mid and West Wales
Croeso Welcome

# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gwaith

**Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu â'r gymuned a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaoedd.**

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, rydym wedi ymrwymo i feithrin gweithle cynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym yn ei gwasanaethu.

Rydym yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol gynrychioli pob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu â'r gymuned a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaoedd.

**Rydym wedi ymrwymo i:**

- Greu amgylchedd croesawgar a pharchus lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso.
- Recriwtio a chadw gweithlu amrywiol, gan gynnwys pobl o gefndiroedd a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd datblygu gyrfa, hyfforddiant a dilyniant.
- Adolygu a gwella ein polisïau, arferion a diwylliant yn barhaus i leihau rhwystrau a rhagfarn.
- Cefnogi iechyd meddwl a lles, gan gydnabod nad yw cynhwysiant yn ymwneud â hunaniaeth yn unig, ond hefyd â sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gweld a'u cefnogi.

Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y mae arweinyddiaeth gref a chynhwysol yn ei chwarae wrth yrru newid diwylliannol cadarnhaol ymlaen. Wrth i ni chwilio am ein Prif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol nesaf, rydym yn chwilio am arweinydd a fydd yn cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar bob lefel o'r sefydliad.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adeiladu ar ein cynnydd, yn arwain trwy esiampl, ac yn parhau i hyrwyddo amgylchedd gwaith lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u grymuso i gyrraedd eu llawn botensial.

Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn hygyrch, yn ymatebol ac yn ennyn ymddiriedaeth holl bobl a chymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.



# Amodau a Thâl

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella eich ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol.



**Cyflog:**
Prif Swyddog Tân: £166,096 - £178,309
Prif Swyddog Gweithredol: £149,486 - £160,478

**Lleoliad Gwaith:**
Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin

**Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella eich ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol:**

- Aelodaeth o LGPS neu Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- Gwyliau blynyddol hael
- Dysgu a datblygu
- Chwaraeon a chymdeithasol
- Ymgynghorwyr iechyd a ffitrwydd
- Cyrsiau dysgu Cymraeg
- Buddion Siopa
- Iechyd Galwedigaethol
- Aelodaeth o Undeb
- Parcio Car am Ddim
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Llesiant Gweithwyr
- Elusen y Diffoddwyr Tân

# Sut i ymgeisio

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol gynrychioli  pob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb.

I wneud cais am y swydd, anfonwch CV pwrpasol a llythyr eglurhaol i **Penna | Jobs** neu am drafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon, cysylltwch â'n cydweithiwr **Fizza.Islam@LHH.com** or on **0141 220 6460**.

Sylwch y dylai'r llythyr eglurhaol ateb y ddau gwestiwn canlynol:

- Rhowch dystiolaeth o sut rydych wedi dangos cydymffurfiaeth â'n Gweledigaeth a'n Ymddygiadau.
- Rhowch ddatganiad o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl, naill ai ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol neu'r Prif Swyddog Tân.

Ni ddylai eich ymateb i'r cwestiynau hyn fod yn hirach na 500 gair i gyd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol gynrychioli pob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu cymunedol a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaoedd.

Rydym yn adolygu ein dull o sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein ceisiadau yn gyson a byddem yn falch pe gallech lenwi Ffurflen Monitro Cydraddoldeb.

Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch neu os hoffech siarad ag aelod o'n tîm i drafod unrhyw amgylchiadau penodol, anfonwch e-bost at y cyfeiriad uchod.

**Amserlen**

- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **hanner nos, dydd Sul 26 Hydref 2025**
- Y Ganolfan Asesu (yng Nghaerfyrddin): **dydd Mawrth 2 Rhagfyr**
- Cyfweliadau gydag Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (yng Nghaerfyrddin): **dydd Gwener 12 Rhagfyr**



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

